# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Aled Elwyn Jones, y Clerc Gweithdrefnau**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Sarah Canning, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Anfonodd y Dirprwy Lywydd ei ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) **Busnes yr wythnos hon**

Hysbysodd Arweinydd y Tŷ y Pwyllgor y bydd y datganiad a ganlyn yn cael ei wneud ddydd Mawrth:

- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Yr ymateb brys i'r llifogydd mawr yng nghanolbarth a gogledd Cymru (30 munud)

Bydd y Pwyllgor Busnes yn gwneud cynigion i newid aelodaeth Llafur ar bwyllgorau ddydd Mercher.

Ddydd Mawrth, cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, nododd y Pwyllgor Busnes y bydd angen ethol Dirprwy Lywydd neu Gadeirydd dros dro ar gyfer dydd Mawrth a dydd Mercher.

### 3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer yr eitem o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 20 Mehefin 2012**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Biliau Preifat a Gwelliannau Amrywiol (5 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Rheolau Sefydlog

### 4(i) **Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chyfreithiau'r DU sy'n effeithio ar bwerau'r Cynulliad neu ar Weinidogion Cymru**

Bu'r Pwyllor Busnes yn ystyried argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad ar ei ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU. Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i'r argymhellion ynghylch gweithdrefnau'r Cynulliad.

Ynglŷn ag Argymhelliad 11, cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i edrych ar sut y gellid ymestyn y weithdrefn dros dro a gytunwyd arni ar gyfer ystyried Gorchmynion y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus i gynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y DU sydd yn dod o fewn cymhwysesdd y Cynulliad neu y gallai effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad, yn amodol ar gynnal adolygiad o'r weithdrefn dros dro.

### 4(ii) **Biliau Preifat a Gwelliannau Amrywiol: Adroddiad drafft**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried adroddiad drafft ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Biliau Preifat a Gwelliannau Amrywiol, a chymeradwyodd yr adroddiad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'r Cynulliad ei ystyried ddydd Mercher 20 Mehefin 2012.

## Busnes Arall

### Ceisiadau am Amser y Cynulliad

Er mwyn sicrhau amser ar gyfer holl ddadleuon ar adroddiadau pwyllgorau tuag at ddiwedd y tymor, cytunodd y Rheolwyr Busnes, dros dro, i leihau'r amser ar gyfer holl ddadleuon ar adroddiadau pwyllgorau a dadleuon y gwrthbleidiau ddydd Mercher 11 Gorffennaf o 60 munud i 45 munud.

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio

Hysbysodd Arweinydd y Tŷ y Rheolwyr Busnes y bydd papur ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried, yn amodol ar gliriad gan y Gweinidog, ddydd Mawrth 19 Mehefin.

### Ailwampio sesiynau Cyfarfod Llawn dydd Mercher

Hysbysodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes o'i bwriad i ddychwelyd at y cynnig i ailwampio sesiynau Cyfarfod Llawn dydd Mercher yr wythnos nesaf.